# PWYLLGOR APELAU

## DYDD MAWRTH, 7FED MEHEFIN, 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, W.G. Hopkins, J.P. Jenkins, S.E. Thomas a J. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
Ms K. Morgan – Pen-swyddog Adnoddau Dynol
Mr C. Jones – Cyfreithiwr Cynorthwyol
Mrs M. Evans Thomas – Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgorau 1, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin : 9.45 a.m. – 1.20 p.m. ac 1.45 p.m. - 2.30 p.m.**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B.A.L. Roberts.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 3. DDIM I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

### 4. YSTRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddadlennu pwy oedd yr unigolyn dan sylw.**

**Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb, y Swyddog Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol

y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl. (Dosbarthwyd copïau o'r protocol yn y cyfarfod.)

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddog Ymchwilio a'r apelydd.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd, ac ar ei ran, a chan y Swyddog Ymchwilio,

**PENDERFYNWYD**

**5.1 bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 22ain Ebrill 2016 yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol ar 19eg ac 20fed Ebrill 2016, yn cael ei gadarnhau;**
**5.2. bod yr apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.**

Cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynghylch penderfyniad y Panel.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**